Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Dilynol Cleifion Allanol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 3750A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 7

Adroddiad Manwl

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau trawsnewid ei wasanaethau cleifion allanol, cyfyngedig yw'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran rhoi ein hargymhellion archwilio blaenorol ar waith ac mae'n dal i gario risgiau clinigol sylweddol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 21

Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr 23

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae cleifion sy'n cael apwyntiad mewn ysbyty neu glinig ond nad oes angen iddynt aros dros nos yn cael eu categoreiddio fel cleifion allanol. Gall yr apwyntiad fod ar gyfer triniaeth, diagnosis, neu weithdrefn. Os trefnir apwyntiadau diweddarach gyda'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, caiff y rhain eu categoreiddio fel apwyntiadau dilynol cleifion allanol.

2 Rydym wedi adolygu gwasanaethau dilynol cleifion allanol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddwywaith dros y blynyddoedd diwethaf[1]. Yn 2015, fe gynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o wasanaethau dilynol cleifion allanol ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Daeth ein Hadolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol yn y Bwrdd Iechyd i'r casgliad bod ganddo wybodaeth dda am nifer yr apwyntiadau dilynol y bu oedi gyda hwy ac y dylai ei drefniadau cynllunio strategol ar yr adeg honno helpu i foderneiddio gwasanaethau cleifion allanol. Yn ein hadolygiad fe wnaethom wyth argymhelliad, gan gynnwys:

- adrodd ar y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol allanol gohiriedig;
- deall pam na ostyngodd nifer yr apwyntiadau dilynol heb eu trefnu (FUNB) fel a ddisgwyliwyd;
- gwella gweithgareddau dilysu; a
- gwella'r broses o foderneiddio gwasanaethau cleifion allanol, gan gynnwys gwerthuso newidiadau i'r gwasanaethau, ac arbedion ariannol cysylltiedig.

3 Yn 2018, fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar ganfyddiadau ei asesiad o'r cynnydd yn erbyn argymhellion 2015 yn y Bwrdd Iechyd. Canfu ein Hadroddiad Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol: Diweddariad Cynnydd fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion 2015, ond bod angen mwy o ffocws i leihau oedi cyn apwyntiadau dilynol, trwy wella prosesau gweithredol a moderneiddio gwasanaethau.

4 Ers 2018 bu newidiadau sylweddol yn y dirwedd gofal iechyd ledled Cymru, gan gynnwys effaith pandemig COVID-19 ar wasanaethau iechyd, gyda staff yn addasu eu ffyrdd o weithio a modelau gofal i ymateb i anghenion cleifion. Hefyd, fe newidiodd ffin y Bwrdd Iechyd yn 2019, ac fe grëwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol newydd Bae Abertawe. Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd GIG Cymru "Trawsnewid y ffordd rydym yn darparu

[1] Ar adeg ein gwaith blaenorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt oedd y Bwrdd Iechyd.

gwasanaethau cleifion allanol yng Nghymru 2020-2023". Roedd y strategaeth hon yn nodi'r angen i gyflymu newidiadau o ran datblygu ffyrdd newydd o weithio, mabwysiadu technolegau newydd, hunanreoli cyflyrau hirdymor sefydlog, yn ogystal â phwysigrwydd rhannu arfer gorau.

5 Fe wnaeth Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-2022 amlinellu ei ddull o adfer gofal wedi'i gynllunio a darparu strategaethau ar gyfer gwella'r ôl-groniad o restrau aros. Manylir ar gynlluniau i adfer gofal wedi'i gynllunio yng "Nghynllun Adfer a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd 2022-23 i 2024-25", sy'n cynnwys datblygu canolfannau rhagoriaeth ar gyfer gofal wedi'i gynllunio yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ein gwaith diweddaraf ar wasanaethau dilynol cleifion allanol yn y Bwrdd Iechyd. Roedd ein gwaith yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol canlynol: 'I ba raddau y mae argymhellion archwilio blaenorol a gododd o'n hadolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol ym mis Tachwedd 2015 a mis Chwefror 2018 wedi cael eu rhoi ar waith ac yn cyflawni'r deilliannau a'r manteision bwriadedig?'. Caiff ein negeseuon allweddol eu nodi yn yr adran ganlynol gyda gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu drwy weddill yr adroddiad hwn.

7 Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

## Negeseuon allweddol

8 Ar y cyfan, canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau trawsnewid ei wasanaethau cleifion allanol, mai cyfyngedig yw'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran rhoi ein hargymhellion archwilio blaenorol ar waith a'i fod yn dal i gario risgiau clinigol sylweddol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol.**

9 Canfu ein gwaith maes fod y Bwrdd Iechyd yn dechrau gwneud gwelliannau i'w wasanaethau cleifion allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi:

- datblygu Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol tair blynedd sy'n nodi'n glir beth yw dull y Bwrdd Iechyd o wella perfformiad gwasanaethau cleifion allanol, yn ogystal ag ymdrin â'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol;
- cyrraedd targed y gweinidog i sicrhau nad yw unrhyw gleifion yn aros am yn hwy na 52 o wythnosau am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol; a hefyd
- cryfhau trefniadau llywodraethu sy'n ategu gwasanaethau cleifion allanol trwy greu Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol i lywio'r

gwaith a wneir i gyflawni’r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol.

10 Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynyddu’r defnydd o’r llwybrau ‘Sylw yn ôl Symptomau[2]’ ac ‘Apwyntiadau Dilynol a Ysgogir gan Gleifion[3]’, yn ogystal â nifer o ddatrysiadau digidol sydd â’r potensial i gynyddu effeithlonrwydd a phrofiad cleifion. Fodd bynnag, mae’r newidiadau a gychwynnwyd gan y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn newydd, gyda phrosiectau ar adeg gynnar o ran eu cyflawni, a dim ond ar gyfer y flwyddyn 2023-24 y sicrhawyd cyllid i gefnogi’r rhaglen.

11 Fodd bynnag, mae cynlluniau i ymdrin â’r agwedd ar y rhaglen sy’n ymwneud ag apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn rhoi achos i bryderu. Mae’r graddfeydd amser ar gyfer cyrraedd Nod 4 (Rhoi Apwyntiadau Dilynol mewn Modd Darbodus) y rhaglen yn ymestyn dros y cyfnod 2023-26. Nid yw’r gwaith wedi dechrau eto, ac mae’r raddfa amser yn dynodi bod rhai camau gweithredu’n annhebygol o ddigwydd am hyd at 2 flynedd.

12 Ers ein gwaith blaenorol, mae nifer sylweddol o gleifion o hyd sy’n aros am apwyntiad dilynol yn y Bwrdd Iechyd. Ym mis Medi 2023, bu oedi gyda dwy ran o bump o’r cleifion ar y rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol, gyda 60% o’r rheiny’n aros o leiaf ddwywaith gyn hired ag y dylent (oedi o 100%). Roedd llawer o’r rhain mewn arbenigeddau lle gallai oedi gynyddu’r risg o niwed. Mae targedau i leihau niferoedd y cleifion sy’n profi oedi erbyn mis Mawrth 2024, yn erbyn llinell sylfaen mis Mawrth 2019, yn annhebygol o gael eu cyrraedd. Fodd bynnag, nid adroddwyd ar y niferoedd a oedd yn profi oedi ym mis Mawrth 2019 felly mae’n anodd asesu’r cynnydd.

13 O’r wyth argymhelliad gwreiddiol o’n hadroddiad yn 2015, mae pum argymhelliad wedi cael eu disodli oherwydd newidiadau yn y cynlluniau a threfniadau cyflawni gweithredol ar gyfer gwelliannau i wasanaethau cleifion allanol. O’r tri sy’n weddill, nid yw’r un ohonynt wedi cael ei gwblhau gyda chamau gweithredu cyfyngedig, neu ddim camau gweithredu, wedi cael eu cymryd ers ein gwaith blaenorol.

14 Canfuom nad oedd digon o fecanweithiau yn eu lle i adrodd yn rheolaidd wrth y Bwrdd neu bwyllgorau ar risgiau clinigol sy’n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol. O ystyried y lefel uchel o gleifion y bu oedi gyda hwy ar y rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol, y mae llawer

[2] Mae’r llwybr Sylw yn ôl Symptomau’n cefnogi cleifion â chyflyrau byrdymor. Mae’n galluogi’r Bwrdd Iechyd i ryddhau claf i mewn i’r gymuned yn gynharach ac yna’n eu galluogi i drefnu apwyntiad os oes angen, megis os yw symptomau’n ailymddangos.

[3] Mae Apwyntiadau Dilynol a Ysgogir gan Gleifion yn darparu mynediad ar gyfer cleifion â chyflyrau hirdymor cronig pan fo’i angen arnynt.

ohonynt mewn arbenigeddau sy'n rheoli cyflyrau risg uchel, rydym yn dal i fod yn bryderus ynghylch lefel y risg a'r niwed posibl i gleifion.

15 Canfu ein gwaith maes hefyd ddull anghyson o ddilysu rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol yn glinigol ac yn weinyddol ym mhob arbenigedd, er bod y Bwrdd Iechyd wedi targedu dau arbenigedd, sef offthalmoleg a chardioleg, lle gallai cleifion ddioddef niwed anghildroadwy oherwydd oedi cyn apwyntiadau dilynol.

16 Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol wedi disodli llawer o'r argymhellion blaenorol; fodd bynnag, mae cyfle o hyd i'r Bwrdd Iechyd werthuso canfyddiadau newidiadau i wasanaethau ymhellach oherwydd y prosiectau a mentrau ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen. Ni chanfuom ryw lawer o dystiolaeth bod gwerthuso'n cynnwys ffocws ar arbedion posibl, a chyfyngedig yw'r adroddiadau ar gynnydd gyda'r prosiectau a'r mentrau ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau.

## Argymhellion

17 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Mae'r argymhellion hyn yn ymgorffori camau gweithredu heb eu cymryd sy'n codi o'n hargymhellion blaenorol. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Sicrhau yr adroddir ar ddigon o wybodaeth am y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol cleifion allanol wrth bwyllgorau perthnasol y Bwrdd i gryfhau trefniadau craffu a sicrwydd. |
| A2 | Sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol yn cael ei darparu am dargedau'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol i'w gwneud yn bosibl asesu'r cynnydd. |
| A3 | Sicrhau bod gweddill y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn cael adnoddau digonol i alluogi pum nod y rhaglen i gael eu cyrraedd fel a fwriadwyd. |
| A4 | Datblygu mecanweithiau gwerthuso i gyfrifo'r arbedion ariannol sy'n deillio o weithgareddau'r prosiect moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol. |
| A5 | Sicrhau goruchwyliaeth ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol ar lefel y Bwrdd. |
| A6 | Datblygu rhaglen o ddilysu clinigol a gweinyddol y gellir ei chymhwyso'n gyson ar draws pob arbenigedd gan gael ei thargedu at gleifion ar yr holl restrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Er bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau trawsnewid ei wasanaethau cleifion allanol, cyfyngedig yw'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran rhoi ein hargymhellion archwilio blaenorol ar waith ac mae'n dal i gario risgiau clinigol sylweddol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol

18 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol ochr yn ochr ag asesiad o gynnydd gyda'r argymhellion a wnaethom yn 2015. Fe wnaethom asesu:

- agweddau ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol sy'n ymwneud ag apwyntiadau dilynol cleifion allanol; a hefyd
- camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol a beth yn fwy y mae angen ei wneud.

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ei Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol ac mae'n debygol o fod yr unig Fwrdd Iechyd i gyrraedd targed y gweinidog i ddileu arosiadau 52 wythnos am apwyntiad newydd fel claf allanol. Fodd bynnag, mae'r ffrâm amser ar gyfer ymdrin â'r agweddau ar y rhaglen sy'n ymwneud ag apwyntiadau dilynol yn creu risg y bydd rhestrau aros ac oedi'n cynyddu.**

19 Fe wnaeth y Pennaeth Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau mewn partneriaeth gyda chlinigwyr ddatblygu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. Nod y rhaglen yw moderneiddio, trawsnewid a gwella gwasanaethau cleifion allanol dros gyfnod o 3 blynedd (2023-2026). Mae'r rhaglen strwythuredig yn cynnwys pum nod cyflawni:

- Nod 1: Atgyfeiriadau Effeithiol
- Nod 2: Cyngor ac Arweiniad
- Nod 3: Trin yn Briodol
- Nod 4: Rhoi Apwyntiadau Dilynol mewn Modd Darbodus
- Nod 5: Mesur yr Hyn sy'n Bwysig


20 Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gyflawni dau brosiect yn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol – Llwybrau Atgyfeirio ac Optimeiddio Prosesau a Darpariaeth ar gyfer Cleifion Allanol, sy'n cyd-fynd â Nod 1, gydag elfennau'n cyd-fynd â Nod 3. Mae cynlluniau

cyflawni prosiectau hefyd yn cyd-fynd â dogfennau strategol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Chynllun Adfer a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd 2022-23 i 2024-25, a'i Raglen Trawsnewid Digidol.

21 Ers ein hadolygiad blaenorol yn 2018, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi nifer o ddatrysiadau digidol ar waith, sydd o bosibl wedi bod o gymorth gydag effeithlonrwydd ac wedi gwella profiad cleifion, gan gynnwys y Porth Cleifion. Mae'r offeryn digidol hwn yn galluogi cleifion i gael mynediad at gopïau electronig o'u dogfennau clinigol a chanlyniadau gwaed, gan rymuso cleifion i gymryd mwy o reolaeth ar eu cyflwr iechyd, yn ogystal â darparu mynediad at wybodaeth ac adnoddau clinigol. Mae gan 25,000 o gleifion fynediad at y Porth Cleifion ar hyn o bryd, gyda'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer 100,000 o gleifion eraill yn 2024.

22 Mae cynnydd wedi cael ei wneud hefyd yn y defnydd o lwybrau cleifion amgen i leihau nifer y cleifion ar restrau aros, gan gynnwys "Sylw yn ôl Symptomau" (SOS) ac "Apwyntiadau Dilynol a Ysgogir gan Gleifion" (PIFU) ar draws arbenigeddau, gyda'r modelau hyn sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cael eu defnyddio lle y bo'n glinigol briodol. Ar lefel genedlaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda yn y maes hwn, gyda 3,516 o gleifion wedi'u haseinio i un o'r ddau lwybr yma ym mis Medi 2023, yr ail nifer uchaf yng Nghymru (**Arddangosyn 2**).

**Arddangosyn 2: cyfanswm y cleifion a aseiniwyd i'r llwybrau SOS a PIFU yn ôl Bwrdd Iechyd, Medi 2023**




Ffynhonnell: Data'r Bwrdd Iechyd


23 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cael llwyddiant gyda tharged y gweinidog bod dim cleifion yn aros dros 52 o wythnosau am apwyntiad cynaf fel claf allanol erbyn mis Mawrth 2024. Mae cynnydd cyson wedi cael ei wneud o

ran lleihau nifer y rhai sy’n aros am hir, gyda dim cleifion yn aros am yn hwy na 52 o wythnosau ym mis Ionawr 2024, sefyllfa a gynhaliwyd ers mis Hydref 2023. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi adnoddau a chapasiti sylweddol i gyrraedd y targed 52 wythnos ac mae’n debygol o fod yr unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru i gyrraedd y targed.

24 Fodd bynnag, nid yw gwaith ar Nod 4 y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol, sy’n canolbwyntio ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol, wedi dechrau eto, gyda fframwaith cyflawni sy’n ymestyn hyd at ddiwedd y rhaglen – 2026. Mae ffrâm amser cyflawni’r Bwrdd Iechyd ar gyfer mynd i’r afael â Nod 4 yn rhoi achos i bryderu y gallai oedi gydag apwyntiadau dilynol cleifion allanol gynyddu’n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn os nad eir i’r afael â hynny’n gynharach.

25 Dros y 18 mis diwethaf, mae nifer y cleifion ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol wedi tyfu o 153,001 ym mis Ebrill 2022 i 162,086 ym mis Medi 2023. Ar 16,680, offthalmoleg sydd â’r nifer uchaf o gleifion ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol (**Arddangosyn 3**).

**Arddangosyn 3: arbenigeddau â’r rhestr aros fwyaf ar gyfer apwyntiadau dilynol, Medi 2023**





Ffynhonnell: Data’r Bwrdd Iechyd

26 O fewn yr arbenigeddau a amlygir yn **Arddangosyn 3**, roedd 13,315 o’r cleifion ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol mewn offthalmoleg heb apwyntiadau wedi’u trefnu eto. Hefyd, roedd gan yr arbenigedd Trawma ac Orthopaedeg 9,212 o gleifion ar eu rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol

ym mis Medi 2023, ac roedd 7,512 o'r cleifion hyn heb apwyntiad wedi'i drefnu eto.

27 Roedd cyfanswm y cleifion a oedd wedi profi oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ym mis Medi 2023 yn 68,203, sy'n 42% o'r rhai ar y rhestr aros. Roedd dros bedair rhan o bump (56,862) o'r rhain heb apwyntiadau wedi'u trefnu. Mae hyn yn cymharu â 36,000 o apwyntiadau dilynol heb eu trefnu ym mis Mehefin 2015, a 45,263 ym mis Mehefin 2017, gan nodi bod dalgylch y Bwrdd Iechyd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr ar yr adeg hon. O nifer y cleifion a oedd wedi profi oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed[4] ym mis Medi 2023, roedd 62% wedi profi oedi o fwy na 100% hebio'u dyddiad targed (**Arddangosyn 4**). Wrth i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei gapasiti a lefelau gweithgarwch i ymdrin ag arosiadau ar gyfer cleifion allanol newydd, mae'r cynnydd mewn gweithgarwch newydd yn hynod debygol o gynyddu'r galw am apwyntiadau dilynol, a'r risg o oedi, ymhellach.

**Arddangosyn 4: nifer y cleifion ag apwyntiadau wedi'u trefnu a heb apwyntiadau wedi'u trefnu a oedd yn profi oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed, Medi 2023**




[4] Mae gwahanol gyflyrau iechyd yn galw am fframiau amser gwahanol ar gyfer apwyntiad dilynol. O ganlyniad, mae GIG Cymru yn adrodd ar faint yr aethpwyd y tu hwnt i ddyddiad targed clinigol, (h.y. o ba ganran y mae claf wedi mynd heibio i'w ddyddiad targed). Byddai oedi o 50% ar gyfer rhywun â tharged i gael apwyntiad o fewn 4 wythnos yn golygu eu bod yn aros am 6 wythnos. Ond mae hefyd yn wir bod rhywun â dyddiad targed clinigol o 6 mis sydd wedi aros am 9 mis wedi profi oedi o 50%.

Ffynhonnell: Data’r Bwrdd Iechyd

## Cyfyngedig yw’r cynnydd y mae’r Bwrdd Iechyd wedi’i wneud o ran rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith ac mae diffyg goruchwyliaeth ar risgiau clinigol sy’n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol yn dal i fod yn bryder penodol

28 Aeth wyth mlynedd heibio ers i ni gyhoeddi ein hargymhellion gwreiddiol, ac mae meysydd allweddol sy’n dal i fod angen sylw. Ceir hefyd argymhellion a wnaed yn 2015 nad ydynt yn berthnasol mwyach. Caiff statws pob un o’r argymhellion blaenorol ei nodi yn **Arddangosyn 5**. Mae **Arddangosyn 6** yn darparu crynodeb o’n hasesiad ni o’r cynnydd yn erbyn y rhain.


**Arddangosyn 5: statws argymhellion 2015**

| Wedi'i roi ar waith | Gweithredu'n mynd rhagddo | Gweithredu cyfyngedig neu ddim gweithredu | Wedi'i ddisodli | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| - | - | 3 | 5 | 8 |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

**Arddangosyn 6: asesiad o'r cynnydd yn erbyn argymhellion 2015.**

| Argymhelliad gwreiddiol i ymdrin ag ef | | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A1 | Sicrhau bod digon o wybodaeth am y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol cleifion allanol gohiriedig, a adroddir i is-bwyllgorau perthnasol y Bwrdd er mwyn cyfnerthu trefniadau craffu a rhoi sicrwydd. | **Gweithredu cyfyngedig neu ddim gweithredu** – Canfuom nad oes digon o fecanweithiau yn eu lle i adrodd yn rheolaidd wrth y Bwrdd ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol cleifion allanol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol fel y mecanwaith allweddol ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni gwaith a ffrydiau gwaith allweddol ar gyfer cleifion allanol, sy'n uniongyrchol atebol i'r Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio. Cyfarfu'r Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol am y tro cyntaf ym mis Hydref 2023. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd trwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad mewn perthynas â gweithgarwch dilynol. Er bod tystiolaeth o dracio perfformiad apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, nid yw hyn yn adnabod goblygiadau ar gyfer risg glinigol na chamau gweithredu wedi'u targedu i leihau'r risg glinigol i gleifion ar draws pob arbenigedd. Nid oes eitem sefydlog â ffocws ar risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch nac ar agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol newydd.<br><br>Mae nifer y cleifion sy'n profi oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed yn y Bwrdd Iechyd yn achosi pryder mawr. Efallai na fydd llawer o gleifion sy'n aros yn dioddef unrhyw niwed wrth brofi oedi. I eraill, gall eu cyflwr waethygu, gallent ddioddef niwed anghildroadwy difrifol a phrofi anghysur gyda hynny o bosibl yn arwain at analluedd i weithio neu i barhau i fod yn annibynnol yn y gwaith. Mae rhai o'r cleifion |

| Argymhelliad gwreiddiol i ymdrin ag ef | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|
| | sy'n aros dros ddwywaith gyn hired ag y dylent yn y Bwrdd Iechyd o fewn arbenigeddau sydd â lefelau uchel o oedi a risg uchel o niwed (**Arddangosyn 7**). |
| | **Arddangosyn 7: arbenigeddau â'r nifer uchaf o gleifion yn profi oedi o 51% a throsodd, Medi 2023**   Ffynhonnell: Data'r Bwrdd Iechyd<br><br>Gwasanaethau Gynaecoleg sydd â'r nifer uchaf o gleifion sydd wedi profi oedi o 100% wrth aros am eu hapwyntiad dilynol, gyda 5,784 o 8,964 o gleifion yn aros ddwywaith gyn hired ag y dylent fod wedi aros am apwyntiad dilynol. Mae offthalmoleg hefyd yn arbenigedd risg uchel o ran y niwed a allai ddeillio o oedi cyn apwyntiadau dilynol. O'r 16,680 o gleifion ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol offthalmoleg, mae 4,022 wedi profi oedi o 100% wrth aros am eu hapwyntiad, gyda 1,026 arall wedi profi oedi o 51-100%. Yn ôl Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, "Mae niwed parhaol o ganlyniad i oedi gyda gofal, o ran colled golwg y gellir ei hosgoi, naw gwaith yn fwy tebygol o ddigwydd mewn cleifion dilynol nag mewn cleifion newydd".<br><br>Rydym yn dal i fod yn bryderus ynghylch lefel y risg glinigol a niwed posibl i gleifion a'r diffyg craffu ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau (**Argymhelliad 1, 2024**) |

| Argymhelliad gwreiddiol i ymdrin ag ef | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|
| A2 Deall pam na ostyngodd nifer yr apwyntiadau dilynol heb eu trefnu (FUNB) yn 2014-15 fel y disgwyliwyd, fel y datblygir trywyddion lleihau ar gyfer 2015-16 i fod yn heriol ond cyraeddadwy. | **Wedi'i ddisodli** – Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ddisodli gan bod cryn dipyn o amser wedi mynd heibio a bod yr argymhelliad hwn ddim yn ddilys mwyach.<br><br>Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol newydd yn cynnwys tri tharged sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol, y mae dau ohonynt yn defnyddio llinell sylfaen o fis Mawrth 2019 fel mesur, sef:<br>• lleihau nifer y cleifion ar restrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol 30% o'i gymharu â llinell sylfaen Mawrth 2019; a<br>• lleihau nifer y cleifion sydd wedi profi oedi o fwy na 100% gyda'u hapwyntiad dilynol 30% o'i gymharu â llinell sylfaen Mawrth 2019.<br>Mae'r ddau darged yn cyd-fynd â graddfa amser Llywodraeth Cymru, sef Mawrth 2024. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i fanylion y llinell sylfaen i asesu'r cynnydd. Roedd yr adroddiadau diweddaraf ar berfformiad yn nodi bod y dangosyddion hyn yn goch sy'n awgrymu bod y Bwrdd Iechyd yn annhebygol o gyrraedd y targedau hyn. (**Argymhelliad 2, 2024)** |
| A3 Gwerthuso'r newidiadau i'r gwasanaeth a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2014-15 i fynd i'r afael ag apwyntiadau dilynol gohiriedig, fel y gellir rhannu dysgu ar draws y sefydliad, ac yn bwysig, hysbysu'r Byrddau Comisiynu newydd wrth iddynt gynllunio a dylunio modelau gwasanaeth newydd. | **Wedi'i ddisodli** – Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ddisodli gan nad yw'r Byrddau Comisiynu'n bodoli mwyach.<br><br>Y Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol yw'r mecanwaith allweddol bellach ar gyfer hysbysu'r Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio ynghylch datblygiadau a chynnydd y prosiectau a'r mentrau sydd wedi'u mapio o fewn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. Mae'r llinell atebolrwydd uniongyrchol hon yn dwyn cyfle i werthuso newidiadau i wasanaethau cleifion allanol yn y dyfodol. Mae ein gwaith maes wedi dynodi bod rhai gweithdai adborth wedi digwydd mewn perthynas â'r prosiectau cleifion allanol a gyflawnwyd fel rhan o Nod 1 (Atgyfeiriadau Effeithiol) y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol gyda chyfleoedd i rannu gwersi gyda staff mewn digwyddiadau ymgysylltu lleol. |

| Argymhelliad gwreiddiol i ymdrin ag ef | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|
| A4 Datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu Prosiect Moderneiddio Gwasanaeth Cleifion Allanol 2015-16 fel mater o frys a sicrhau bod capasiti ac adnoddau digonol i gyflawni'r camau a nodir ar y cyflymder angenrheidiol. | **Wedi'i ddisodli** – Canfuom fod y rhan fwyaf o'r elfennau allweddol yn yr argymhelliad hwn wedi cael eu disodli. Mae Cynllun Gweithredu Prosiect Moderneiddio Gwasanaethau Cleifion Allanol 2015-16 wedi cael ei ddisodli gan y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol.<br><br>Ar adeg ein gwaith ni, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni gwaith yn erbyn Nod 1 (Atgyfeiriadau Effeithiol) a Nod 3 (Trin yn Briodol) y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. Yn ystod gwaith maes, roedd cydnabyddiaeth gan y Bwrdd Iechyd bod gwaith cyfyngedig wedi cael ei ddyrannu i'r sefyllfa o ran apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'i chynnwys o fewn Nod 4 (Rhoi Apwyntiadau Dilynol mewn Modd Darbodus). Y raddfa amser cyflawni ar gyfer Nod 4 yn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yw 2023-26, sy'n dynodi efallai na fydd rhai canlyniadau a phrosiectau sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol yn eu lle'n gyfan gwbl am hyd at dair blynedd.<br><br>Mae'r Arian Adfer Gofal wedi'i Gynllunio[5] wedi cael ei ddefnyddio i gyllido blwyddyn gyntaf y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol i ddechrau, gan ddarparu deuddeg aelod parhaol o staff ar gyfer y rhaglen y gwnaeth arweinydd y rhaglen gytuno ar gyllid parhaol ar eu cyfer.<br><br>Mae ein gwaith ni'n awgrymu y gall yr adnoddau/y capasiti fod yn ddigon i gyrraedd yr ychydig o Nodau cyntaf yn y rhaglen, ond y gall fod angen rhagor o adnoddau i gyflawni'r prosiectau a'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y Nodau diweddarach. Nid oes cyllid wedi cael ei ddyrannu ar ôl mis Mawrth 2024 ac mae diffyg eglurder ynghylch unrhyw gyllid cylchol pellach sydd ar gael i lywio gwaith i gyflawni'r Rhaglen |

[5] Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian ychwanegol o £15 miliwn y flwyddyn am y cyfnod o bedair blynedd o 2022-2026 i fyrddau iechyd i gefnogi adferiad gofal wedi'i gynllunio.

| **Argymhelliad gwreiddiol i ymdrin ag ef** | **Crynodeb o'r cynnydd** |
| --- | --- |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol **(Argymhelliad 3, 2024)** |
| A5 Datblygu dulliau gwerthuso priodol, fel y gall y Bwrdd Iechyd gyfrifo'r arbedion ariannol sy'n deillio o weithgareddau prosiect moderneiddio'r gwasanaeth cleifion allanol yn brydlon. | **Wedi'i ddisodli** – Canfuom fod y rhan fwyaf o'r elfennau allweddol yn yr argymhelliad hwn wedi cael eu disodli.<br><br>Ers ein hadolygiad blaenorol yn 2018, rydym wedi canfod mai cyfyngedig fu'r dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn gwerthuso prosiectau moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol fel bod modd cyfrifo arbedion ariannol. Mae gweithdai adborth wedi cael eu hwyluso gan y Bwrdd Iechyd a'r rheiny'n canolbwyntio ar y prosiectau cleifion allanol a gyflawnwyd fel rhan o Nod 1 (Atgyfeiriadau Effeithiol) y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol ac mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd y dull hwn yn cael ei estyn i bob Nod yn y rhaglen wrth iddi gael ei chyflwyno. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa fecanweithiau gwerthuso penodol fydd yn cael eu defnyddio a pha un a yw unrhyw un neu rai o'r mecanweithiau hyn yn canolbwyntio ar gyfrifo arbedion posibl a gynhyrchir o'r mentrau moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol **(Argymhelliad 4, 2024**). |
| A6 Sicrhau bod Byrddau Comisiynu yn adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd fel bod ganddynt sicrwydd bod cynlluniau moderneiddio'r gwasanaeth cleifion allanol yn cael eu darparu a bod y buddiannau a fwriedir yn cael eu cyflawni. | **Wedi'i ddisodli** - Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ddisodli gan nad yw'r Byrddau Comisiynu yn y Bwrdd Iechyd yn bodoli mwyach.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol i oruchwylio'r gwaith a wneir i gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol yn cael pum adroddiad ar y "Prif Bwyntiau" o ran perfformiad sy'n darparu diweddariad o'r pum ffrwd waith gwasanaethau cleifion allanol:<br>• Perfformiad Gwasanaethau Cleifion Allanol;<br>• Canoli Gwasanaethau Cleifion Allanol;<br>• Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol; |

| Argymhelliad gwreiddiol i ymdrin ag ef | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|
| | • Llwybrau'r 3A[6]; a hefyd<br>• Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn Ddigidol.<br><br>Mae'r adroddiadau hyn yn darparu manylion ynghylch cynnydd mewn perthynas â mentrau a phrosiectau moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol. Wedyn mae un adroddiad trosfwaol ar y prif bwyntiau'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio a hwnnw'n ymgorffori diweddariadau o bob ffrwd waith o fewn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod adroddiadau diweddaru ar gynnydd mewn perthynas â moderneiddio Gwasanaethau Cleifion Allanol yn cael eu cyflwyno ar lefel y Bwrdd. **(Argymhelliad 5, 2024)** |
| A7 Sicrhau bod gweithgareddau dilysu'n canolbwyntio ar gyflyrau clinigol lle gallai cleifion ddioddef niwed parhaol os bydd oediadau cyn apwyntiadau dilynol. | **Gweithredu cyfyngedig neu ddim gweithredu** – Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi targedu gweithgareddau dilysu o fewn dau arbenigedd (Offthalmoleg a Chardioleg) lle gallai cleifion ddioddef niwed anghildroadwy oherwydd oedi cyn apwyntiadau dilynol. Fodd bynnag, nid oes dull na chynllun cyson i ddilysu rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol yn glinigol ac yn weinyddol ym mhob arbenigedd.<br><br>Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn nodi mai ei chanlyniad mewn perthynas â Nod 5 (Mesur yr Hyn sy'n Bwysig) yw "datblygu dull cenedlaethol a chynaliadwy o ddilysu rhestrau aros", gyda Mawrth 2024 wedi'i nodi fel dyddiad cyflawni. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod y dull dilysu hwn yn agos at gael ei roi ar waith.<br><br>O ystyried nifer y cleifion sydd wedi profi oedi ar y rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol, |

[6] Y 3A yw annog, atal ac amser paratoi. Maent yn rhan o bolisi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymorth a gwybodaeth ar gael yn rhwydd i'r rhai sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio.

| Argymhelliad gwreiddiol i ymdrin ag ef | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|
| | y mae llawer ohonynt mewn arbenigeddau sy'n rheoli cyflyrau risg uchel, rydym yn dal i fod yn bryderus ynghylch lefel y risg glinigol a'r niwed posibl i gleifion oherwydd anghysonderau mewn prosesau dilysu **(Argymhelliad 6, 2024).** |
| A8 Dysgu o'r gweithgareddau dilysu a gyflawnir, i ddatblygu prosesau gweinyddu a threfnu apwyntiadau yn well, er mwyn lleihau'r angen i ôl-ddilysu. | **Gweithredu cyfyngedig neu ddim gweithredu** – Canfuom, ers ein hadolygiad blaenorol yn 2018, mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth i ddangos sut y mae gwersi wedi cael eu rhannu i helpu i leihau'r angen am ddilysu ôl-weithredol.<br><br>Un o gyfrifoldebau'r Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol, a nodir yn ei Gylch Gorchwyl, yw "cyfranogi'n weithredol mewn trafodaethau i rannu gwersi ac arfer da". Fodd bynnag, gan bod y Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol yn dal yn gymharol newydd, mae'n anodd asesu faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud yn weithredol mewn perthynas â rhannu gwersi, yn enwedig gan bod y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn dal yn ei chamau cynnar. |

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 8** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiom ni i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a gafwyd o'r dulliau isod.

**Arddangosyn 8: dulliau archwilio**

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cofnodion, agendâu, cylchoedd gorchwyl a phapurau'r Bwrdd a phwyllgorau a grwpiau perthnasol, gan gynnwys y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y pwyllgor Perfformiad a Chyllid, y Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio, y Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol a'r Grŵp Llywio Rheoli Mynediad Cleifion;<br>• Dogfen hunanasesu a gwblhawyd gan y Bwrdd Iechyd a oedd yn nodi'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion blaenorol;<br>• Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol;<br>• Cynllun Gwasanaethau Cleifion Allanol Digidol;<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• Adroddiadau a dangosfyrddau allweddol mewn perthynas â pherfformiad gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau cleifion allanol gan gynnwys data mewn perthynas ag Apwyntiad Dilynol Heb Ei Drefnu, Sylw yn ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiadau Dilynol a Ysgogir gan Gleifion (PIFU);<br>• Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer apwyntiadau dilynol a SOS/PIFU;<br>• Cynllun Blynyddol 2021-22;<br>• Cynllun Adfer a Chynaliadwyedd 2022-25;<br>• Adroddiadau Perfformiad Integredig; ac<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol; |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion canlynol:<br>• Prif Swyddog Gweithredu;<br>• Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu;<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Digidol; |

| **Elfen o'r ymagwedd archwilio** | **Disgrifiad** |
| --- | --- |
| | • Pennaeth Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau;<br>• Arweinydd Clinigol Gwasanaethau Cleifion Allanol;<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Interim Trawsnewid a Phennaeth Peirianneg Systemau Gofal Iechyd; a'r<br>• Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt, Systemau a Thrawsnewid Gofal Iechyd. |
| Dadansoddi data | Fe wnaethom ddadansoddi'r data sydd ar gael yn genedlaethol ac o fewn y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r canlynol:<br>• nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiadau dilynol cleifion allanol;<br>• defnydd o sylw yn ôl symptomau ac apwyntiadau dilynol a ysgogir gan gleifion<br>• perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau cenedlaethol sy'n ymwneud â chleifion allanol. |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 9: ymateb y rheolwyr**

Bydd Arddangosyn 9 yn cael ei gwblhau unwaith y mae wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A1 Sicrhau yr adroddir ar ddigon o wybodaeth am y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn apwyntiadau dilynol cleifion allanol wrth bwyllgorau perthnasol y Bwrdd i gryfhau trefniadau craffu a sicrwydd. | Mae'r BI yn cydnabod bod angen gwaith pellach yn y maes hwn i sicrhau bod risgiau clinigol yn cael eu deall ac yr adroddir arnynt yn briodol.<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn adrodd wrth y pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar dargedau'r mesurau gofal llygaid gan ddangos yr arosiadau am apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion yn ôl is-arbenigedd. | Mawrth 2025 | Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Castell-nedd Port Talbot a Singleton |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Datix yw'r brif system a ddefnyddir gennym i gofnodi niwed ac ar hyn o bryd mae staff clinigol yn cofnodi ar Datix unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r oedi cyn cael eu gweld wedi arwain at niwed i'r claf yn eu tyb hwy. Ymchwilir i'r rhain a chan ddibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad cymerir camau gweithredu.<br><br>Fel rhan o'r prosiect rhestrau aros apwyntiadau dilynol rydym yn bwriadu adolygu'r meysydd lle ceir yr oedi hwyaf ac fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn pwyso a mesur sut y gallwn adrodd ar ddeilliannau/ niwed o bosibl mewn ffordd debyg i'r mesurau gofal llygaid wrth y bwrdd rheoli a'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| A2 Sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol yn cael ei darparu am dargedau'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol i'w gwneud yn bosibl asesu'r cynnydd. | Mae gan y BI raglen gynhwysfawr i drawsnewid gwasanaethau cleifion allanol, sydd yn unol â'r rhaglen genedlaethol. Mae ganddo fwrdd rhaglen dynodedig, sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Castell-nedd Port Talbot a Singleton ac mae'n atebol i'r Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio, sy'n cael ei Gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu.<br><br>Ers yr archwiliad, mae pob ffrwd waith bellach wedi cytuno ar nodau, dulliau a deilliannau (GMO) i'w gwneud yn bosibl monitro cynnydd. Mae'r GMO ar gyfer pob ffrwd waith yn cael eu cipio mewn adroddiad misol ar y prif bwyntiau a gyflwynir i Fwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. | Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Castell-nedd Port Talbot a Singleton |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Mae adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno hefyd ar gynnydd GMO pob ffrwd waith i'r grŵp gweithredol cynllunio blynyddol (APOG) sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu fel rhan o'n CTCI.<br><br>Y targed sylfaenol ar gyfer apwyntiadau dilynol heb eu trefnu (FUNB) – yn benodol – Mae gwaith bellach wedi cael ei gwblhau ar faterion cywirdeb gydag adrodd ar y data. Ceir dau darged fel rhan o'r prosiect FUNB, sef gostyngiad o 15% yn nifer y cleifion sydd wedi profi oedi o 100% heibio'u dyddiad targed (gostyngiad o 7631 yw targed PBA) a'r targed arall yw Gostyngiad o 30% yn nifer y cleifion sydd wedi profi oedi o fwy na 100% gyda'u hapwyntiad dilynol (gostyngiad o 7,754 yw targed PBA) | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| A3 Sicrhau bod gweddill y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn cael adnoddau digonol i alluogi pum nod y rhaglen i gael eu cyrraedd fel a fwriadwyd. | Mae gan y rhaglen trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol agenda brysur iawn ac mae'r adnodd, yn enwedig o ran rheoli prosiectau, wedi bod yn broblemus. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i drosiant uchel o ran staff mewn swyddi ond hefyd i faint y gwaith a nifer y ffrydiau gwaith sydd wedi'u cynnwys.<br><br>Oherwydd y brys i ymdrin â'n rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phennaeth Peirianneg Systemau Gofal Iechyd ynghyd â'r Prif Swyddog Gweithredu wedi ailflaenoriaethu gwaith y tîm trawsnewid i ailflaenoriaethu'r adnoddau i roi cymorth i gynyddu cyflymder y ffrwd waith ar gyfer rhoi apwyntiadau dilynol mewn modd darbodus. | Wedi'i gwblhau | Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phennaeth Peirianneg Systemau Gofal Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Byddwn yn adolygu'r trefniadau i gyrraedd gweddill y nodau i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gyflawni mewn perthynas â'r nodau sy'n weddill, fel rhan o raglen trawsnewid yr adran gwasanaethau cleifion allanol. | Mawrth 2025 | |
| A4 Datblygu mecanweithiau gwerthuso i gyfrifo'r arbedion ariannol sy'n deillio o weithgareddau'r prosiect moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol. | Mae'r Tîm Peirianneg Systemau Gofal Iechyd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda gwasanaethau i ddatblygu cynlluniau Galw a Chapasiti, sy'n gysylltiedig â chynllunio swyddi, sy'n gwneud enillion effeithlonrwydd yn weladwy. Hefyd, mae'r ffrydiau gwaith unigol yn mynd ati'n weithredol i geisio datrysiadau "sylw cynharach" ar gyfer rheoli'r galw am wasanaethau cleifion allanol yn fwy effeithlon. | Tachwedd 2024 | Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phennaeth Peirianneg Systemau Gofal Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Gan bod y mentrau o fewn y rhaglen trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol i gyd yn cael eu harwain gan raglen Genedlaethol y GIG yn Lloegr, disgwylir i'r dull modelu ariannol holistaidd gael ei ddarparu trwy'r mecanwaith hwnnw i sicrhau dull cyson. | I'w bennu gan raglenni Cenedlaethol | |
| A5 Sicrhau goruchwyliaeth ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol ar lefel y Bwrdd. | Mae Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn adrodd yn ffurfiol wrth y Bwrdd Adfer Gofal wedi'i Gynllunio, sydd yn ei dro'n adrodd yn rheolaidd wrth y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Bwrdd Rheoli. Yn y dyfodol, bydd adroddiadau'n cynnwys adran yn benodol ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. | Rhagfyr 2024 | Prif Swyddog Gweithredu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A6 Datblygu rhaglen o ddilysu clinigol a gweinyddol y gellir ei chymhwyso'n gyson ar draws pob arbenigedd gan gael ei thargedu at gleifion ar yr holl restrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol. | Mae'r cam gweithredu hwn wrthi'n cael ei ddatblygu trwy'r Tîm Mynediad Cleifion / Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol. Mae'r tîm wedi datblygu rhaglen hyfforddi sy'n cynnwys modiwlau penodol mewn perthynas â dilysu clinigol a gweinyddol ar gyfer pob arbenigedd. Cydnabyddir nad yw dilysu rhestrau aros yn barhaus yn ddull darbodus a byddwn felly'n ceisio mynd i'r afael â'r mater yn fwy cadarn trwy ymdrin â'r materion yn y tarddiad, trwy fwy o addysg a hyfforddiant i'r holl staff.<br><br>Mae modiwlau hyfforddi wrthi'n cael eu datblygu a dylent gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.<br>Gyda chynllun yn cael ei ddatblygu i'w gyflwyno i grwpiau staff o fis Rhagfyr ymlaen, bydd hwn yn | Pecyn hyfforddi wedi'i gwblhau a mis Tachwedd 2024/Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2024.<br><br>Hyfforddiant i ddechrau ym mis Rhagfyr 2024 – mae'n debygol o gymryd hyd at 12 mis i'w gyflwyno'n llawn | Prif Swyddog Gweithredu, a'r Dirprwy Bennaeth Trawsnewid, Perfformiad a Gwella |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| | hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gweinyddol sy'n rhan o drefnu apwyntiadau a rheoli rhestrau aros yn ogystal â modiwl hyfforddi byrrach ar gyfer clinigwyr | | |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.